# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG

## COFNODION Y CYFARFOD O BELL A GYNHALIWYD DRWY MICROSOFT TEAMS AR DDYDD LLUN, 11 IONAWR 2021 AM 5.30PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd T. Parry - Cadeirydd
Cynghorydd C. Andrews - Is-gadeirydd

Cynghorwyr:

Mrs E.M. Aldworth, A. Collis, C. Cuss, A. Farina-Childs, Ms J. Gale, D. Havard, B. Miles a J. Simmonds.

Ynghyd â:

Swyddogion: R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), J. Southcombe (Rheolwr Cyllid), A. West (Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif), Clare Jones (Cydlynydd y Fforwm Ieuenctid), C. Forbes-Thompson (Rheolwr Craffu), S. Hughes (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn bresennol:

Aelodau Cyfetholedig: Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Addysg Archesgobaeth ROC Caerdydd), Mrs T. Millington (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwyr), Mr G. James (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwyr), Mrs P. Ireland (NEU) a Mr D. Davies (Cymdeithas Llywodraethwyr Caerffili).

Hefyd yn bresennol:

Dau gynrychiolydd y Fforwm Ieuenctid

**TREFNIADAU RECORDIO**

Atgoffodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei recordio ac y byddai ar gael i'w gweld drwy wefan y Cyngor, ac eithrio trafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig. Cliciwch yma i'w weld

**1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr P. J. Bevan, W. David, D. T. Hardacre, M. P. James, Mrs G. D. Oliver, J. E. Roberts ac R. Whiting (Aelod Cabinet dros Ddysgu a Chyflawniad).

## 2. DATGANIAD BUDDIANNAU

Ni chafodd unrhyw ddatganiadau o fuddiant eu derbyn ar ddechrau neu yn ystod y cyfarfod.

## 3. COFNODION – 26 TACHWEDD 2020

PENDERFYNWYD bod y cofnodion ar gyfer cyfarfod Pwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes a gynhaliwyd ar ddydd Iau 26 Tachwedd 2020 (rhif cofnodion 1-7) i'w cymeradwyo fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## 4. I YSTYRIED UNRHYW FATER A GYFEIRIWYD AT Y PWYLLGOR CRAFFU YN UNOL Â'R WEITHDREFN GALW I MEWN

Ni fu unrhyw fater a gyfeiriwyd at y Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn.

## 5. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU DYSGU GYDOL OES

Cyflwynodd Cath Forbes-Thompson (Rheolwr Craffu) yr adroddiad a oedd yn amlinellu manylion Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg ar gyfer y cyfnod rhwng Ionawr 2021 a Mai 2021, ac roedd yn cynnwys yr holl adroddiadau a nodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ddydd Iau 26 Tachwedd 2020. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y Flaenraglen Waith, ochr yn ochr â Blaenraglen Waith y Cabinet, cyn ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Amlinellodd y Rheolwr Craffu newidiadau arfaethedig i'r Flaenraglen Waith. Cynigiwyd y dylid symud adroddiad y Strategaeth Gwaharddiadau a drefnwyd ar gyfer 22 Chwefror 2021 i'r cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 17 Mai 2021 er mwyn rhoi mwy o amser i Swyddogion ymgynghori ag ysgolion. Cynigiwyd hefyd y dylid cyflwyno diweddariad Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a drefnwyd ar gyfer y cyfarfod a gynhelir ar 17 Mai 2021 i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Addysg fel eitem wybodaeth.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, ac yn amodol ar y newidiadau a gynigiwyd, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn cael eu cymeradwyo. Drwy broses bleidleisio galw'r gofrestr, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD bod Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

## 6. ADRODDIADAU CABINET

Ni fu unrhyw adroddiad Cabinet a restrwyd ar yr agenda eu galw ymlaen i'w trafod yn y cyfarfod.

## ADRODDIADAU GAN SWYDDOGION

Ystyriwyd yr adroddiadau canlynol.

## 7. BLAENORIAETHAU'R FFORWM IAU AC IEUENCTID

Derbyniodd yr Aelodau adroddiad ar Flaenoriaethau'r Fforwm Iau ac Ieuenctid, i'w hysbysu o'r materion a godwyd gan blant a phobl ifanc drwy Fforymau Iau ac Ieuenctid y Gwasanaeth Ieuenctid. Gofynnodd yr adroddiad am farn yr Aelodau cyn ei gyflwyno i'r Cabinet.

Cyflwynodd dau gynrychiolydd o'r Fforwm Ieuenctid gyflwyniad a oedd yn amlinellu materion y Fforwm Iau ac Ieuenctid ar gyfer 2020 ac oedd yn rhoi trosolwg o weithgarwch y prosiectau ar gyfer 2020, gan gynnwys unrhyw gynlluniau i fynd i'r afael â'r materion yn ystod 2021.

Hysbyswyd y Pwyllgor Craffu Addysg, yn dilyn Cynhadledd y Fforwm Ieuenctid ym mis Ionawr 2020 a chyfarfod y Fforwm Iau ym mis Tachwedd 2019, fod plant a phobl ifanc wedi nodi materion sy'n bwysig iddynt ac wedi pleidleisio ar Faterion Blaenoriaeth ar gyfer 2020. Roedd materion y Fforwm Iau ac Ieuenctid wedi'u strwythuro o amgylch pum thema: Caerffili Ffyniannus, Caerffili Saffach, Caerffili sy'n Dysgu, Caerffili Iachach a Chaerffili Wyrddach.

Pleidleisiodd 3310 o bobl ifanc yn cynrychioli'r Gwasanaeth Ieuenctid, Ysgolion a Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid dros flaenoriaeth gyffredinol y Fforwm Ieuenctid. Hysbyswyd yr Aelodau bod y flaenoriaeth gyffredinol ar gyfer eleni o dan thema Caerffili Ddiogelach gyda 26% o'r bleidlais, a'r mater yw codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau brys, lle mae pobl ifanc wedi dweud bod angen iddynt gael eu haddysgu mwy am beth i'w wneud mewn argyfwng. Nododd y Fforwm Iau flaenoriaeth ym mhob thema Fforwm ardal, a godwyd drwy ymgynghori ac yna pleidleisiodd dros y flaenoriaeth gyffredinol. Hysbyswyd yr Aelodau bod y flaenoriaeth gyffredinol ar gyfer eleni o dan thema Caerffili Saffach gyda 25% o'r bleidlais a'r broblem yw y gall ceir yn goryrru anafu neu ladd pobl.

Trafododd yr Aelodau'r materion a godwyd gan blant a phobl ifanc drwy Fforymau Iau ac Ieuenctid y Gwasanaeth Ieuenctid, ac ystyriodd sut i gefnogi'r Fforwm Iau ac Ieuenctid i fynd i'r afael â'u materion blaenoriaeth.

Cydnabu'r Aelodau a'r Swyddogion y gwaith caled a wnaed gan y Fforwm Iau ac Ieuenctid a diolchwyd cynrychiolwyr y Fforwm Ieuenctid am eu cyflwyniad.

Yn dilyn ystyriaeth o'r adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo argymhellion yr adroddiad. Drwy broses bleidleisio galw'r gofrestr, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Craffu Addysg:

(i) Yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno materion Fforwm Iau ac Ieuenctid i'r Cabinet gan bobl ifanc.

(ii) Yn ystyried sut i gefnogi'r Fforwm Ieuenctid i fynd i'r afael â'u Blaenoriaeth - codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau brys ac addysgu pobl ifanc o beth i'w wneud mewn argyfwng.

(iii) Yn ystyried sut i gefnogi'r Fforwm Iau i fynd i'r afael â'u Blaenoriaeth - ceir yn goryrru.

(iv) Yn rhoi sylw dyledus i faterion a godwyd yn yr adroddiad gan Blant a Phobl Ifanc wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

## 8. MONITRO CYLLIDEB 2020/21 (CYFNOD 7)

Cyflwynodd Jane Southcombe (Rheolwr Cyllid) yr adroddiad a roddodd wybod i'r Aelodau am sefyllfa alldro 2020-21 ar gyfer y Gyfadran Addysg a Dysgu Gydol Oes, yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael.

Hysbyswyd yr Aelodau bod y sefyllfa alldro a rhagwelir ar gyfer Addysg a Dysgu Gydol Oes yn danwariant o £341 mil. Mae'r sefyllfa alldro a rhagwelir ar gyfer Gwasanaethau Corfforaethol yn danwariant o £1,191 mil, ac o ganlyniad yn gyffredinol mae'r sefyllfa alldro a rhagwelir ar gyfer Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol yn danwariant o £1,532 mil.

Cafodd y Pwyllgor Craffu Addysg drosolwg o'r amrywiadau sylweddol mewn Addysg sy'n bwydo i mewn i'r sefyllfa danwariant. Cynghorwyd yr aelodau bod gwaith yn mynd rhagddo gydag

ysgolion a'r Gyfadran o ran Cronfa Caledi COVID-19 Llywodraeth Cymru a hyd yma mae'r Gyfadran wedi sicrhau dros £700 mil mewn grantiau i gefnogi gwariant ychwanegol a chostau incwm a gollwyd.

Cyfeiriodd Aelod at y tanwariant ar gyllideb Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol/Coleg a gofynnodd am eglurhad a gwybodaeth bellach am werthoedd y contract sy'n cael eu cefnogi i'r lefel o 75% (Ebrill i Awst). Hysbyswyd yr Aelodau ei fod wedi cael ei gytuno, yn gynnar yn y pandemig ledled Cymru, y byddai gwerthoedd contractau trafnidiaeth yn cael eu cefnogi i'r lefel o 75%, gyda phryder gwirioneddol y byddai gweithredwyr yn methu heb gymorth ac na fyddent ar gael pan fydd ysgolion a cholegau'n dychwelyd. Rhoddwyd sicrwydd y byddai llawer o drafodaethau wedi'u cynnal rhwng Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn llawn, nododd y Pwyllgor Craffu Addysg y cynnwys.

## 9. RHEOLI LLEOEDD MEWN YSGOLION - ADDYSG FFYDD

Cyflwynodd A. West (Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif) yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau sut y mae'r galw am ddarpariaeth Addysg Ffydd yn cael ei fodloni yn y Fwrdeistref Sirol. Hysbyswyd y Pwyllgor Craffu Addysg mai dim ond un ysgol ffydd wirfoddol a gynorthwyir sydd o fewn yr Awdurdod, sef Ysgol Gynradd Gatholig Santes Helen. O'r garfan, mae 72.4% o'r disgyblion sy'n mynychu o'r Ffydd Gatholig gyda'r 27.6% sy'n weddill o gefndiroedd nad ydynt yn Gatholig. Hysbyswyd yr Aelodau bod y wybodaeth a roddwyd yn yr adroddiad hwn yn cael ei chasglu'n uniongyrchol gan yr ysgol.

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod gan Ysgol Gynradd Gatholig Santes Helen gapasiti cyffredinol o 210 (ynghyd â meithrinfa) gyda nifer derbyn cyhoeddedig o 30. Tynnwyd sylw at y ffaith mai Ysgol Gynradd Gatholig Santes Helen yw ei hawdurdod derbyn ei hunain ac felly'n gyfrifol am dderbyn y disgyblion ac ymdrin ag apeliadau. Ar hyn o bryd mae 213 o ddisgyblion ar y gofrestr ac mae 163 ohonynt o'r Ffydd Gatholig (ac eithrio meithrinfa). Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod y 3 disgybl ychwanegol wedi'u derbyn drwy broses apelio.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor Craffu mai Santes Helen yw'r unig Ysgol Gatholig yn yr awdurdod ac ar hyn o bryd mae'n darparu ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili cyfan. Hysbyswyd i'r Aelodau mai'r disgwyliad cyffredinol yw bod disgyblion sy'n mynychu Santes Helen ar hyn o bryd i drosglwyddo ym Mlwyddyn 7 i Ysgol Uwchradd Cardinal Newman (RhCT), yn amodol ar ddewis rhieni. Mewn perthynas â'r galw am Addysg Ffydd a gynhelir y tu allan i'r sir, cadarnhawyd cyn yr achos o COVID-19 ym mis Mawrth 2020, bod yr Awdurdod yn cludo 357 o ddisgyblion allan o'r awdurdod er mwyn bodloni dewis y rhieni.

Hysbyswyd yr Aelodau bod Caerffili ac awdurdodau eraill wedi datblygu dull cydgysylltiedig yn 2018 ac wedi llunio holiadur i gadarnhau'r galw am leoedd wrth symud ymlaen. Diben yr holiadur oedd sefydlu galw gan rieni, yn enwedig ar gyfer Addysg Cyfrwng Cymraeg ond roedd hefyd yn cynnwys cwestiwn i ddangos y galw am Addysg Ffydd. Tynnwyd sylw at y ffaith bod 2.06% o'r rhieni a holwyd y llynedd, o'r 1,959 o ffurflenni ar gyfer Caerffili, wedi dweud y byddent yn dewis Addysg Ffydd i'w plant, sy'n sylweddol is na rhai awdurdodau cyfagos. Dywedwyd wrth yr Aelodau bod y wybodaeth a ddarparwyd yn dangos bod digon o ddarpariaeth ar gael ar hyn o bryd i ateb y galw am ddisgyblion o gefndir Ffydd yn y Fwrdeistref Sirol.

Tynnodd Mr M. Western sylw arbennig at yr ymgyngoreion ar gyfer yr adroddiad a gofynnodd a ymgynghorwyd ag unrhyw sefydliadau Ffydd eraill ledled y cwm, ac eithrio Ysgol Gatholig Santes Helen, mewn perthynas â llunio'r adroddiad. Codwyd pryderon ynglŷn â chael un ysgol Ffydd sengl yn y Fwrdeistref Sirol ac ystyriwyd pe bai ysgol Ffydd arall ym mhen gogleddol y cwm y byddai'r galw yno, ond heb annerch arweinwyr Ffydd eraill ni fyddai'r awdurdod yn gwybod. Cadarnhaodd y Swyddog fod Ysgol Gatholig Santes Helen wedi darparu'r wybodaeth yn yr adroddiad. Tynnwyd sylw at y ffaith y byddai'r Fforwm Derbyn i Ysgolion, sy'n gyfrwng i awdurdodau derbyn a phartïon allweddol eraill â diddordeb drafod effeithiolrwydd trefniadau derbyn lleol, yn gyfrwng lle gellid cynnal trafodaethau pe bai galw pellach. Dywedwyd wrth yr

Aelodau, fel rhan o broses yr Awdurdod wrth reoli a chynllunio'r ddarpariaeth o leoedd mewn ysgolion, bod y ddarpariaeth Addysg Ffydd yn cael ei monitro'n barhaus ac na chodwyd unrhyw faterion erioed nac unrhyw arwydd nad yw'r galw'n cael ei fodloni. Ailadroddwyd hefyd mai dim ond 2.06% o rieni o'r holiaduron ar gyfer Caerffili a ddywedodd y byddent yn dewis i'w plant gael eu haddysgu drwy gyfrwng Ffydd.

Codwyd ymholiad ynglŷn â'r disgwyliad cyffredinol i ddisgyblion sy'n mynychu Santes Helen ar hyn o bryd i drosglwyddo ym Mlwyddyn 7 i Ysgol Uwchradd Cardinal Newman. Eglurodd y Swyddog, yn seiliedig ar y niferoedd sy'n cael eu cludo allan o'r awdurdod ar hyn o bryd, nad oes digon o alw ar hyn o bryd i gyfiawnhau darpariaeth uwchradd o ran Ffydd. Mae'r disgwyliad cyffredinol yn amodol ar alw rhieni, ni ellir rhagdybio bod dilyniant naturiol i Ysgol Uwchradd Cardinal Newman.

Nododd y Pwyllgor Craffu Addysg y wybodaeth yn yr adroddiad.

## 10. ASESIAD SAFONAU BLYNYDDOL LLYWODRAETH CYMRU 2018-19 GWASANAETH LLYFRGELL BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

Cyflwynodd S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg) yr adroddiad i hysbysu'r Pwyllgor Craffu Addysg o'r cynnydd a wnaed gan Wasanaeth Llyfrgelloedd y Fwrdeistref Sirol, wrth geisio bodloni 6ed Fframwaith Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus, Hawliau Craidd a Dangosyddion Ansoddol Llywodraeth Cymru, yn ystod 2018-19. Dyma 2il flwyddyn Fframwaith Llywodraeth Cymru o'r enw, 'Llyfrgelloedd Cysylltiedig ac Uchelgeisiol 2017-2020.' Tynnwyd sylw at y ffaith bod Tabl Graddio Llywodraeth Cymru, sy'n cymharu safonau pob Awdurdod Lleol, yn gosod Caerffili fel rhif 5 allan o 22.

Hysbyswyd yr Aelodau bod Gwasanaeth Llyfrgelloedd Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cael ei asesu fel un sy'n bodloni pob un o 12 Hawl Craidd Llywodraeth Cymru. Hysbyswyd yr Aelodau hefyd fod Gwasanaeth Llyfrgell Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cael ei asesu fel un a oedd yn bodloni, yn llawn, 8 o'r 10 Dangosydd Ansawdd ar gyfer Cymru sydd wedi neilltuo targedau, a 2 yn rhannol heb unrhyw ddangosyddion wedi methu yn eu cyfanrwydd.

Tynnwyd sylw at feysydd o gryfder arbennig o fewn perfformiad yr Awdurdod, a nodwyd gan Grŵp Cyfeirio Safonau Llywodraeth Cymru ar asesu cyflwyniad Gwasanaeth Llyfrgell Bwrdeistref Sirol Caerffili ar gyfer 2018-19. Tynnwyd sylw hefyd at feysydd perfformiad eraill a oedd yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ac y mae angen i'r Cyngor roi sylw pellach iddynt wrth gynnal ei allu i ddarparu gwasanaeth sy'n perfformio'n dda yn y dyfodol.

Gofynnwyd am bwyntiau o eglurhad ar wahanol agweddau ar yr adroddiad ac ymatebodd Swyddogion i'r pwyntiau a godwyd. Gofynnodd Aelod am eglurhad a gwybodaeth bellach mewn perthynas â'r Dangosyddion Ansawdd sydd wedi'u bodloni'n rhannol. Mewn perthynas â QI9 ‘Deunydd Darllen Diweddar a Phriodol’, cynghorwyd yr Aelodau bod newidiadau i’r dull recordio a weithredwyd gan Grŵp Cyfeirio Asesiadau Llywodraeth Cymru, rhan-ffordd drwy’r flwyddyn, wedi effeithio ar berfformiad Caerffili.

Mewn perthynas â QI13 'Lefelau Staffio a Chymwysterau', sicrhawyd yr Aelodau bod arweinyddiaeth gymwysedig ar waith a bod datblygiad staff yn cael ei gefnogi. Tynnwyd sylw at y ffaith mai dim ond 6 o'r 22 Awdurdod Lleol a oedd yn bodloni'r cyflenwad staffio proffesiynol (QI13) a 5 o'r 22 a oedd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer caffael stoc (QI9) yn asesiad 2018-19.

Pwysleisiodd y Pennaeth Cynllunio a Strategaeth fod y Gwasanaeth Llyfrgelloedd, er gwaethaf toriadau yn y gyllideb, yn ystod 2018/19, wedi cynnal pob un o'r 18 pwynt gwasanaeth llyfrgell a'i lefel ategol o ddarpariaeth.

Nododd y Pwyllgor Craffu Addysg y wybodaeth yn yr adroddiad.

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir, ac yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau y cytunwyd arnynt a'u cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2021, fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

__________________________

CADEIRYDD